Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Band Eang Cyflymach

## Yr ateb i chi

llyw.cymru/band-eang-yng-nghymru

# Rydym am i gartrefi a busnesau yng Nghymru allu cael mynediad at gysylltedd digidol cyflym a dibynadwy.

Mae gan y rhan fwyaf o gartrefi a busnesau yng Nghymru fynediad at gysylltedd digidol o ansawdd da. Rydym wedi buddsoddi cyllid cyhoeddus sylweddol i helpu i gyflawni hyn trwy gyflwyno technoleg band eang ffibr. Fodd bynnag, mae rhai mathau o eiddo heb fynediad at gysylltiad band eang cyflym o hyd.

Er bod llawer o eiddo yn defnyddio cysylltiad band eang sy'n seiliedig ar ffibr, nid oes un datrysiad i bawb ar gyfer band eang cyflymach. Mae yna ystod o wahanol opsiynau technolegol.

Cyn edrych ar yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer cael band eang cyflymach, **gwelwch a oes gennych fynediad at gysylltiad band eang cyflym eisoes**.

**Gwirio'r canlynol:**

- **Gwirio gydag Ofcom a oes band eang ar gael yn: checker.ofcom.org.uk**
- **Gwybodaeth a chanllawiau band eang, gan gynnwys gwirio a yw ar gael a mapiau cwmpas, yn: thinkbroadband.com**

**Os oes gennych fynediad, bydd angen i chi uwchraddio neu archebu gyda darparwr. Ni fydd hyn yn digwydd yn awtomatig.**

- **Gwirio'r canlynol: Cyngor ar archebu band eang ffeibr yn: www.llyw.cymru/band-eang-yng-nghymru**

# Pa dechnolegau y gallaf eu defnyddio i gael mynediad at gyflymder band eang cyflymach?

Mae'r rhan fwyaf o eiddo yn defnyddio cysylltiad seiliedig ar ffibr. Fodd bynnag, mae **opsiynau eraill ar gael i roi hwb i gyflymder band eang**. Mae technolegau newydd yn dod i'r amlwg yn barhaus, felly os na allwch gael gwasanaeth band eang cyflym ar hyn o bryd, dylech ystyried yr holl atebion sydd ar gael. Mae technolegau presennol yn esblygu'n gyflym, sy'n golygu y gallai atebion y gallech fod wedi'u diystyru o'r blaen bellach fod yn opsiwn i chi.

Gallai rhai o'r rhain gynnwys.

## Cysylltiad lloeren

Mae lloeren yn trosglwyddo data i ac o ddysgl sydd ynghlwm wrth eich eiddo i ddod â band eang i chi. Mae hyn yn darparu cyflymderau lawrlwytho cyflym iawn a dylai fod ar gael ym mhobman.

Mae rhyngrwyd lloeren wedi bod o gwmpas ers peth amser. Fodd bynnag, mae technolegau newydd bellach ar gael fel Orbit Daear Isel (LEO) neu loeren y genhedlaeth nesaf all ddarparu cyflymder o dros 100Mbps.

Mae angen gosod lloerennau lle mae ganddynt olygfa ddirwystr o'r awyr. Gallwch osod lloeren eich hun, neu gallwch ddefnyddio cwmni gosod erial teledu neu loeren neu ddarparwr band eang lleol i'w osod i chi.


Mae rhai cwmnïau eisoes wedi lansio lloerennau ac mae pecynnau ar gael i safleoedd yng Nghymru. Mae dysglau lloeren ar gyfer gwasanaethau band eang bellach hefyd ar gael gan rai manwerthwyr electroneg neu siopau adrannol.

**Chwilio ar-lein:**
**Rhyngrwyd Lloeren y Genhedlaeth Nesaf**

**Gwirio:**

- **Yn uniongyrchol gyda darparwyr lloerenni**
- **Cwmnïau gosod band eang lleol**
- **Manwerthwyr electronig a siopau adrannol**

# Datrysiad band eang ffonau symudol 4G / 5G




Efallai y bydd eiddo yn gallu cael mynediad at gysylltiad band eang cyflymach gan ddefnyddio'r rhwydwaith ffonau symudol 4G neu 5G.

Nid yw hyn yn golygu defnyddio ffôn symudol ac nid oes angen ceblau na llinell ffôn arnoch. Mae cysylltiad band eang symudol yn cael ei ddarparu i'ch eiddo trwy lwybrydd 4G wneu 5G neu dongle Wi-Fi.

Os nad oes signal 4G neu 5G cryf dan do, gallwch osod antena y tu allan i'ch eiddo. Gallwch edrych ar wiriwr cwmpas symudol Ofcom i weld cryfder signal darparwyr rhwydwaith.

Mae'r holl brif gwmniau ffonau symudol – 3, EE, O2 a Vodafone, yn cynnig gwasanaethau band eang symudol ac mae pecynnau data diderfyn ar gael.

**Gwirio'r canlynol:**

- **Gwiriwr cwmpas ffonau symudol Ofcom**
- **Gwefannau holl brif gwmnïau ffonau symudol i gymharu tariffau a chwmpas**

# Cysylltiad di-wifr sefydlog



Defnyddir antena i godi signal band eang o fast i ddarparu band eang i'ch eiddo, gan ddileu'r angen am wifrau cebl neu ffôn.

Bydd angen ichi allu gweld y mast o'r derbynnydd ar eich eiddo. Weithiau gall rhwystrau fel coed, dail neu strwythurau dynol ymyrryd a rhwystro'r signal.

Mae gwasanaeth diwifr sefydlog ar gael mewn rhai ardaloedd gwledig lle nad oes mynediad at fand eang ffibr eto. Gallwch siarad â'ch cymdogion, darparwyr band eang lleol, neu'ch awdurdod lleol, i ddarganfod beth allai fod ar gael yn eich ardal.

**Gwirio'r canlynol:**

- **Yn uniongyrchol gyda darparwyr band eang lleol**
- **Gwirio gydag Ofcom a oes band eang ar gael**
- **Gyda chymdogion a'ch awdurdod lleol**

# A oes cymorth ar gael i'm helpu i gysylltu â band eang cyflymach?

## Prosiect Gigabit

Mae Llywodraeth y DU wedi gosod targed uchelgeisiol o ddarpariaeth gigabit llawn erbyn 2030. Maent yn cyflawni yng Nghymru drwy eu rhaglen flaenllaw Prosiect Gigabit. Mae'n targedu cartrefi a busnesau nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghynlluniau cyflenwyr band eang, gan gyrraedd rhannau o'r DU a allai fel arall golli'r cyfle i gael y cysylltedd digidol sydd ei angen arnynt.

**Edrychwch ar wefan Llywodraeth y DU i gael rhagor o wybodaeth am Brosiect Gigabit.**

**Ewch i: gov.uk/guidance/project-gigabit-uk-gigabit-programme**

## Cymorth Awdurdod Lleol

Mae gan rai awdurdodau lleol swyddogion ymgysylltu band eang a allai eich helpu gyda'ch opsiynau cysylltedd. Mae yna hefyd awdurdodau lleol sydd â'u cynlluniau cyflwyno band eang eu hunain. Fe wnaethom ddatblygu Cronfa Band Eang Lleol wedi'i hanelu at awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i'w helpu i gyflawni'r cynlluniau hyn.

**Gwiriwch: gyda'ch awdurdod lleol i siarad â swyddog ymgysylltu band eang neu weld a ydych wedi'ch cynnwys mewn cynlluniau band eang lleol.**

## Cynllun Grant Allwedd Band Eang Cymru

Mae Cynllun Grant Allwedd Band Eang Cymru Llywodraeth Cymru yn helpu trigolion a busnesau yng Nghymru i gysylltu â band eang cyflymach. Os na allwch gael mynediad at fand eang trwy unrhyw ffordd arall, gallwch wneud cais am gyllid i osod datrysiad band eang ar eich safle. Rhaid i'r ateb rydych chi'n ei ddewis ddarparu isafswm cyflymder lawrlwytho cyfartalog o leiaf 30 Mbps ar ôl ei osod.

**I gael rhagor o wybodaeth am gynllun grantiau Mynediad Band Eang Cymru a'r cymorth arall sydd ar gael –**

**ewch i: www.llyw.cymru/band-eang-yng-nghymru**


OGL © Hawlfraint y Goron 2025
WG52204 ISBN digidol 978-1-83715-812-6 ISBN argraffu 978-1-83715-811-9